

**Cofnodion cyfarfod y Bwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar  
27 Mawrth 2025 ar Zoom**

**Yn bresennol**

Julia Hughes (Cadeirydd)	JH	Aelod Annibynnol
Sally Ellis (Dirprwy Gadeirydd)	SE	Aelod Annibynnol
Gareth Pritchard	GP	Aelod Annibynnol
Gill Murgatroyd	GM	Aelod Annibynnol
Cyng John Brynmor Hughes	JBM	Cyngor Gwynedd
Matthew Powell	MP	Dirprwy Swyddog Monitro/Clerc
Lisa Allington Aelodau	LJA	Cynorthwydd Gweithredol/Cyswllt
Ffion Evans	FE	Cynorthwydd Gweithredol

**Ymddiheuriadau**

Cyng Marion Bateman	MB	Cyngor Sir y Fflint
---------------------	----	---------------------

**Yn Absennol**

---

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

Cyflwynwyd sesiwn hyfforddi hanner awr o hyd ar y Cod Moeseg i'r Aelodau am 09:30 a chyn y cyfarfod.

**1 YMDDIHEURIADAU**

1.1 Cynigiwyd a derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Marion Bateman. Croesawyd Ffion Evans i'r cyfarfod fel arsylwr i ddarparu gwydnwch os nad oedd y cyswllt Gwasanaethau Aelodau ar gael ar gyfer cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

2.1 Datganodd Gill Murgatroyd fuddiant personol yn Eitem 9 oherwydd ei haelodaeth ar Bwyllgor Cynllunio Sir y Fflint.

2.2 Gofynnodd Sally Ellis a ddylai hi hefyd ddatgan buddiant personol gan ei bod hi'n aelod o Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio Sir y Fflint. Cytunodd y Dirprwy Clerc i ymchwilio i'r gofyniad hwn ymhellach ac adrodd yn ôl i'r aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

2.3 Datganodd Julia Hughes fuddiant personol yn Eitem 9, Ein Canfyddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan ei bod yn aelod o Bwyllgor Safonau Sir y Fflint.

### **3 HYSBYSIAD O FATERION BRY**

- 3.1 Eglurwyd y gellid trafod Eitem 7 yn y cyfarfod busnes ac nad oedd angen ei symud i Ran II, oni bai bod y drafodaeth yn symud i fanylion personol am y rhesymau dros absenoldeb Aelodau.

### **4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

- 4.1 Hysbyswyd yr aelodau nad oedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Hydref 2025 wedi'u cwblhau oherwydd absenoldeb staff ac felly cytunwyd ar yr isod fel crynodeb o'r materion a drafodwyd:

- Nid oedd y Cynghorydd Bateman a John Brynmor Hughes yn bresennol a nodwyd ymddiheuriadau.
- Cymeradwyodd yr aelodau gofnodion y cyfarfod eithriadol ar 5 Ebrill 2025 a gofynnwyd a oedd y Polisi Rhoddion a Lletygarwch wedi'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Tân. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei wirio ac os nad ydyw, gofynnir i'r Pennaeth Cyllid sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi.
- Rhoddwyd adborth llafar gan y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ar y cyfarfod a gynhaliwyd gyda Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod Tân llawn a'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Mehefin 2024.
- Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru sy'n rhoi data ystadegol ar gŵynion am gynghorwyr mewn cynghorau lleol, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol dros y flwyddyn. Nododd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o gŵynion yn ymwneud â chydraddoldeb a pharch a bod cynnydd cyffredinol mewn cwynion ond nad oedd unrhyw un yn ymwneud ag ymddygiad yr Aelodau o fewn awdurdodau tân ledled Cymru.
- Cafodd y Pwyllgor adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru. Mae'n darparu data ystadegol ar nifer y gwrandawriadau a gwblhawyd dros y flwyddyn.
- Fel eitem sefydlog reolaidd, cafodd y Pwyllgor adroddiad ar "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar ar adolygiad Archwilio Cymru o lywodraethiant awdurdodau tân ac achub a rhoddodd y Cadeirydd adborth hefyd o gyfarfod y Fforwm Cenedlaethol Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau ym mis Mehefin.
- Trafodwyd a diweddarwyd y rhaglen waith.

## **5 MATERION YN CODI**

- 5.1 Gofynnwyd am rywfaint o waith paratoi rhwng y Cadeirydd a'r Dirprwy Glerc cyn y cyfarfod gyda Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod llawn a'r Pwyllgor Archwilio cyn cynnal y cyfarfod, a bod agenda yn cael ei rhoi ar waith.

## **6 ADRODDIAD LLAFAR Y CADEIRYDD AR FFORWM CENEDLAETHOL CADEIRYDDION PWYLLGORAU SAFONAU – CYMRU**

- 6.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Fforwm Gogledd Cymru wedi bodoli erioed, sef cyfarfod o Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau, i edrych ar themâu cyffredin ac arferion a rennir, a bod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn mynd i'r fforwm hwnnw. Pan gyhoeddwyd Adolygiad Penn, argymhellwyd y dylid sefydlu Fforwm Cymru Gyfan.
- 6.2 Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Safonau yn mynd i gyfarfod Cymru Gyfan, neu'r Dirprwy Gadeirydd os nad yw'r Cadeirydd ar gael, ac mae Swyddogion Monitro Cymru yn bresennol ar sail gylchdroadol. Mae'r agendâu yn cael eu llunio ar sail awgrymiadau gan y Cadeiryddion a'r Swyddogion Monitro ac felly anogir Aelodau i ofyn am eitemau agenda os ydynt yn teimlo ei fod yn briodol.
- 6.3 Rhoddodd y Cadeirydd adborth o'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniadau gyda chwestiynau ac atebion gan Pam Lucas, Llywodraeth Cymru (LIC), Is-adran Polisi Llywodraeth Leol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig a Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW).
- 6.4 Bydd y cyfarfodydd nesaf yn cael eu cynnal ddydd Llun 23 Mehefin 2025 a dydd Llun 26 Ionawr 2026, y ddau ar Teams.

### **6.5 PENDERFYNWYD:**

- i) nodi cynnwys y diweddariad a roddwyd.**

## **7 PRESENOLDEB AELODAU YNG NGHYFARFODYDD YR AWDURDOD TÂN**

- 7.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y papur ar bresenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Tân a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried a mynd i'r afael ag unrhyw bresenoldeb gwael yng nghyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).
- 7.2 Nodwyd y dylid ystyried cyd-destun unrhyw ddirywiad mewn presenoldeb, ac nad oedd unrhyw Aelod yn disgyn o dan y trothwy presenoldeb o 50%. Roedd yr Aelodau'n falch o'r presenoldeb ar hyn o bryd ac yn teimlo bod y gwelliant yn y presenoldeb cyffredinol yn gadarnhaol.

- 7.3 Tynnodd un Aelod sylw at y ffaith bod mwy o ofyniad i Aelodau fynd i gyfarfodydd eleni ac felly roedd y gwelliant mewn presenoldeb hyd yn oed yn fwy arwyddocaol.
- 7.4 Cytunodd yr Aelodau y byddai'r maes hwn yn parhau i gael ei fonitro ac y byddai ysgrifennu at yr awdurdodau cyfansoddol i nodi presenoldeb gwell yn cael ei ystyried, ar yr amod bod hyn yn parhau i ddangos gwelliant.
- 7.5 **PENDERFYNWYD:**
- i) nodi'r cyfraddau presenoldeb yng nghyfarfodydd yr Awdurdod hwn ers 5 Ebrill 2024; ac**
  - ii) nad oedd gofyniad i ysgrifennu at awdurdodau cyfansoddol gan nad oedd unrhyw Aelodau o'r Awdurdod â'u presenoldeb yn is na 50%;**

## **8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/25**

- 8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y papur mewn perthynas â deuddegfed Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2024/25.
- 8.2 Gwnaed rhai gwelliannau i sillafu, gramadeg a dyluniad ac ychwanegwyd y cyfarfod gyda Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024.
- 8.3 Cytunwyd ychwanegu ei fod wedi cael ei nodi o dan y cyfarfod ar gyfer 27 Mawrth 2025 nad oedd presenoldeb unrhyw Aelod yn is na 50%, er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cofnodi.
- 8.4 Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r angen i ystyried newid fformat a dull yr adroddiad ar gyfer y tro nesaf er mwyn gwneud iddo ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau, a chytunwyd y dylid edrych ar hyn ymhellach.
- 8.5 Cytunwyd hefyd y dylid cynnwys presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yn seminar diwylliant GTAGC ar 18 Chwefror 2025 yn yr adroddiad i adlewyrchu eu hymrwymiad ehangach i'w rôl.
- 8.6 Teimlai'r Aelodau y dylid aileirio'r adran ar hyfforddiant fel a ganlyn: "Y nod oedd cyflwyno hyfforddiant ar ddechrau pob cyfarfod."
- 8.7 Dylai'r presenoldeb yng nghyfarfod 2 Hydref ddangos nad oedd y Cynghorydd Brynmor Hughes yn bresennol.

## 8.8 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r Awdurdod.**

## 9 **"EIN CANFYDDIADAU" OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

9.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc bapur "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a oedd yn hysbysu'r Aelodau am ganfyddiadau diweddar a wnaed gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (PSOW) i weld a oedd unrhyw negeseuon y gellid eu rhannu â chynghorwyr Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

9.2 Nodwyd nad oedd unrhyw un o'r cwynion yn yr adroddiad yn ymwneud ag aelodau awdurdodau tân.

9.3 Cytunwyd y byddai'r data mewn adroddiadau yn y dyfodol hefyd yn cael ei gyflwyno ar ffurf graffiau i'w gwneud hi'n haws nodi unrhyw dueddiadau a allai fod angen sylw.

## 9.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi unrhyw dueddiadau neu negeseuon yn yr adroddiad Ein Canfyddiadau a allai fod o fudd i gynghorwyr ar yr Awdurdod.**

## 10 **ADOLYGIAD TREIGL O'R PROTOCOL CYFRYNGAU CYMDEITHASOL**

10.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adolygiad treigl o'r Protocol Cyfryngau Cymdeithasol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn berthnasol.

10.2 Roedd un Aelod o'r farn y gallai'r polisi presennol fod yn berthnasol ond nad oedd yn gyfredol ac y dylid ei ehangu i gwmpasu pobl yn eu capasiti personol. Roeddent hefyd yn teimlo y dylid ei ddiweddarau i adlewyrchu'r materion sy'n ymddangos yn adroddiad "Ein Canfyddiadau" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac awdurdodau lleol yn ddi-os, ac roedd angen llawer mwy o enghreifftiau na'r rhai sydd wedi'u cynnwys ar hyn o bryd.

10.3 Cytunwyd y dylid cynnal mwy o ymchwil i nodi polisiâu a'u cynnwys o fewn y chwe awdurdod lleol a CLILC cyn i unrhyw ddiwygiadau sylweddol gael eu gwneud i'r polisi hwn; fodd bynnag, roedd yr ymchwil hon yn angenrheidiol i sicrhau bod y polisi o fewn yr Awdurdod hwn yn addas i'r diben.

#### 10.4 **PENDERFYNWYD:**

- i) bod y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol yn parhau i fod yn berthnasol ond gan ei fod wedi'i gyfyngu yn bennaf i adrodd ar gyfarfodydd y Cyngor, nid ystyrir ei fod yn gyfredol ac i ofyn i'r Dirprwy Glerc gynnal ymchwil/ymgyngoriad ynghylch protocolau cyfryngau cymdeithasol o fewn y chwe awdurdod lleol cyfansoddol, CLILC a grŵp Swyddogion Monitro Cymru i adrodd i'r Pwyllgor Safonau nesaf ar ganlyniad yr ymgyngoriad hwnnw;**

#### 11 **RHAGLEN WAITH**

11.1 Trafodwyd y Rhaglen Waith, a chytunwyd y dylid ychwanegu adborth o ymchwil ar y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol at y cyfarfod ar gyfer Medi/Hydref 2025.

#### 11.2 **PENDERFYNWYD:**

- i) Derbyn cynnwys y Rhaglen Waith, gyda'r newid uchod.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r rhai a oedd yn bresennol a dywedodd y byddai dyddiad ar gyfer cyfarfod Medi / Hydref yn cael ei gadarnhau maes o law.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:53